Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Ifor Bach
Windsor Way
Abertridwr
Caerffili
Abertridwr
CF83 4AB

23/02/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Ionawr 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Ifor Bach yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas ag argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol, ynghyd ag un agwedd a gytunwyd gyda’r pennaeth. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Datblygu medrau darllen Cymraeg disgyblion

- Mae gan arweinwyr a staff weledigaeth gytûn ynglŷn â sut i ddatblygu medrau darllen disgyblion. Maent yn gwerthuso cynnydd disgyblion yn eu medrau darllen yn rheolaidd ac yn monitro effaith eu dulliau addysgu darllen drwy drafodaethau proffesiynol cyson.
- Mae staff yn cael cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol, gan gynnwys cydweithio’n llwyddiannus ag ysgolion eraill i rannu arfer dda, ac i ddatblygu a mireinio’u dulliau o addysgu darllen. Mae hyn, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar addysgu darllen.
- Mae staff wedi cydweithio i sefydlu dull cytûn o ddatblygu medrau darllen ar draws yr ysgol, gyda disgwyliadau clir wedi’u gosod. Maent yn defnyddio’r dulliau hyn yn gyson i gefnogi disgyblion i wneud cynnydd parhaus yn eu medrau.
- Mae athrawon yn darparu amrywiaeth addas o destunau darllen i ddisgyblion, sy’n arwain at welliant yn eu dealltwriaeth a’u hymatebion wrth drafod nodweddion

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu’r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

llyfrau. Mae arweinwyr yn cydnabod yr angen i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o awduron a llenorion Cymraeg ymhellach.
- Mae gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o fedrau darllen disgyblion unigol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn fedrus er mwyn addasu'r ddarpariaeth, ac i gefnogi disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol yn amserol.
- Ym Mlwyddyn 2, mae disgyblion yn darllen yn hyderus. Maent yn defnyddio strategaethau priodol i ddarllen yn gywir ac yn dangos dealltwriaeth dda o'r hyn y maent yn ei ddarllen. Ar frig yr ysgol, mae disgyblion yn darllen â rhuglder cynyddol gan ddefnyddio'u medrau ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus, gan gynnwys ymchwilio i bynciau amrywiol a chrynhoi'r hyn y maent wedi'i ddarllen yn effeithiol.

## Datblygu medrau ysgrifennu annibynnol disgyblion

- Mae'r holl staff wedi myfyrio'n  ddwys ar y ffordd orau i ddatblygu medrau ysgrifennu annibynnol disgyblion. Maent wedi cynnal cyfarfodydd staff, ymgynghori â phartneriaid gwella a chydweithio'n  effeithiol ag ysgolion y clwstwr.
- Mae arweinwyr wedi trefnu cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerth chweil i'r staff er mwyn cryfhau eu dealltwriaeth a'u hyder wrth ddatblygu dysgwyr annibynnol. Golyga hyn fod gan y staff ymwybyddiaeth gadarn o ystyr ysgrifennu annibynnol a thaith ysgrifennu disgyblion unigol.
- Mae arweinwyr wedi cyflwyno syniadau a chynlluniau newydd yn wrthrychol, gan fonitro'r  ddarpariaeth a'r effaith ar waith y disgyblion yn effeithiol. Maent wedi cadw'r  hyn oedd yn llwyddiannus a'i addasu yn ôl y galw. Maent wedi adnabod yn gywir yr hyn nad oedd mor llwyddiannus neu'n amherthnasol i gyd-destun yr ysgol.
- Mae athrawon yn cynllunio profiadau ysgogol sy'n datblygu medrau disgyblion yn adeiladol er mwyn eu cynorthwyo i feistroli ffurfiau ysgrifennu gwahanol.
- Mae'r athrawon yn dechrau cynnig cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion hŷn  wneud penderfyniadau am sut hoffent gyflwyno eu gwaith mewn ystod briodol o gyd-destunau.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6762262

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol